


Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Cyffredinol ar waith Archwilio Ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru: 2000-01

Adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru



# Adroddiad Cyffredinol ar waith Archwilio Ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru: 2000-01

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 27 Mawrth 2002.

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru** | **1** |
| **Rhan 1: Cyflwyniad** | **3** |
| Cwmpas yr Adroddiad hwn | 3 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 3 |
| Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru | 3 |
| Rôl y Swyddog Cyfrifo | 4 |
| **Rhan 2: Archwiliad Ariannol yn 2000-01** | **5** |
| Cyflwyniad | 5 |
| Canlyniadau'r archwiliadau | 5 |
| Barn archwilio | 5 |
| Adroddiadau ar gyfrifon | 5 |
| **Rhan 3: Gweithio gyda'r Archwiliad Mewnol** | **8** |
| Cyflwyniad | 8 |
| Darparwyr gwasanaethau archwilio mewnol yng Nghymru | 8 |
| Sicrwydd a roddir gan archwilwyr mewnol ar gyfer 2000-01 | 8 |
| Dibyniaeth ar yr archwiliad mewnol | 8 |
| **Rhan 4: Cyflwyno adroddiadau i'r Cleientiaid** | **10** |
| Cyflwyniad | 10 |
| Ychwanegu gwerth: Adroddiadau i Reolwyr Cleientiaid | 10 |
| **Rhan 5: Cronfeydd Strwythurol Ewrop** | **12** |
| Cyflwyniad | 12 |
| Cronfeydd Strwythurol Ewrop yng Nghymru | 12 |
| Rôl a chyfrifoldebau statudol | 12 |
| Archwilio Ceisiadau am Grantiau Ewropeaidd | 13 |
| Crynodeb | 14 |
| **Rhan 6: Gohebiaeth a Gwaith Arall** | **15** |
| Cyflwyniad | 15 |
| Gohebiaeth ac ymholiadau eraill | 15 |
| Deddf Datgelu Er Budd y Cyhoedd 1998 | 15 |
| Secondiadau i gleientiaid archwilio | 16 |

| | |
|---|---|
| **Rhan 7: Rheolaeth Gorfforaethol** | **17** |
| Cyflwyniad | 17 |
| Datblygu rheolaeth gorfforaethol | 17 |
| Datganiadau Rheolaeth Fewnol | 17 |
| Pwyllgorau archwilio | 18 |
| **Rhan 8: Cyfrifa a Chyllidebu ar sail Adnoddau** | **19** |
| Cyflwyniad | 19 |
| Cyfrifon adnoddau y Cynulliad 2000-01 | 19 |
| Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru | 19 |
| Cyllidebu ar Sail Adnoddau | 21 |
| **Rhan 9: Edrych ymlaen** | **22** |
| Cyflwyniad | 22 |
| Cyrff newydd a chyrff sy'n dirwyn i ben i'w harchwilio ar gyfer 2001-02 | 22 |
| Ailstrwythuro GIG Cymru | 22 |
| Ychwanegu gwerth | 22 |
| **Atodiad:** | **23** |
| Cyfrifon a gwmpaswyd gan yr adroddiad hwn | 23 |


**Rhestr o Ffigurau a ddefnyddir yn yr Adroddiad**


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 1: | Cyfrifon a archwiliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2000-2001 | 4 |
| Ffigur 2: | Cydweithio â'r Archwiliad Mewnol | 9 |
| Ffigur 3: | Enghreifftiau o argymhellion a wnaed ym 1999-2000 na weithredwyd arnynt hyd yn hyn yn 2000-01 | 11 |
| Ffigur 4: | Rheoli gwariant grant | 11 |
| Ffigur 5: | Amcanion Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | 19 |
| Ffigur 6: | Cerrig Milltir Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | 20 |

# RHAGAIR GAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy ail Adroddiad Cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r gwaith archwilio ariannol a wnaed gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2000-01 ac yn nodi'r materion allweddol sy'n deillio ohono.

Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf hefyd yn gweithredu fel archwiliwr allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei hun a'i gyrff cyhoeddus cysylltiedig. Mae fy archwiliadau bob blwyddyn yn cwmpasu dros £8 biliwn o wariant cyhoeddus ac yn rhychwantu ystod eang o fywyd cyhoeddus yng Nghymru, o ddatblygu economaidd i'r celfyddydau ac o iechyd i amaethyddiaeth.

O'm gwaith archwilio ariannol ymhob corff, gallaf roi sicrwydd annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bod cyfrifon wedi'u paratoi'n gywir a bod yr incwm a'r gwariant wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd. Rwyf hefyd yn gallu gwneud argymhellion i uwch reolwyr pob corff ynglŷn â gwelliannau i'w systemau o reoli ariannol a rheolaeth fewnol.

Yn yr adroddiad hwn, gwnaf sylwadau ar ganlyniadau fy ngwaith archwilio ar Gronfa Strwythurol Ewrop. Bydd tua £1.3 biliwn o arian Ewropeaidd ar gael i Gymru ar gyfer 2000-06, ac mae'r adroddiad hwn yn esbonio'r rôl bwysig y mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ei chwarae wrth roi cyngor i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, noddwyr prosiectau a'r rhai sy'n cael grantiau ynglŷn â gwelliannau effeithiol y rhaglen allweddol hon.

Mae'n bleser gennyf hefyd nodi rhai o'r ffyrdd niferus eraill y mae staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn fy nghynorthwyo wrth i mi gyflawni fy nghyfrifoldebau, er enghraifft, drwy ymchwilio i faterion a ddygwyd i'm sylw gan Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.

Yn gyffredinol, yn fy marn i, mae safonau rheoli ariannol a gonestrwydd yn parhau'n uchel yng Nghymru. Mae hynny'n dyst i waith caled a diwydrwydd swyddogion ar bob lefel yn y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus cysylltiedig. Wrth i'r sector cyhoeddus barhau i fynd i'r afael â heriau cyfrifa, cyllidebu ac adrodd ar sail adnoddau, fy nod yw parhau i ddarparu gwasanaeth archwilio effeithlon ac effeithiol i'r cyrff sy'n gleientiaid i mi a rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cynulliad a phobl Cymru.

**John Bourn**
27 Mawrth 2002

# RHAN 1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn crynhoi canlyniadau'r gwaith archwilio ariannol a wnaed ar fy rhan gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2000-01.

## Cwmpas yr Adroddiad hwn

1.2 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn yr adroddiad blynyddol hwn, rwyf:

- yn nodi canlyniadau fy archwiliadau blynyddol o'r cyfrifon a gynhyrchwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) a'i gyrff cyhoeddus noddedig (Rhan 2);
- yn esbonio sut y mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gweithio gydag archwilwyr mewnol, ac yn dibynnu ar eu gwaith (Rhan 3);
- yn crynhoi'r themâu allweddol sy'n deillio o'm hadroddiadau i reolwyr cleientiaid (Rhan 4);
- yn nodi canlyniadau fy ngwaith archwilio ar Gronfeydd Strwythurol Ewrop (Rhan 5);
- yn disgrifio'r gwaith a wneuthum mewn ymateb i faterion a godwyd mewn gohebiaeth oddi wrth Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol a'r cyhoedd (Rhan 6);
- yn gwneud sylwadau ar ddatblygiadau ym maes rheolaeth gorfforaethol a chyfrifo a chyllidebu ar sail adnoddau (Rhannau 7 a 8); ac
- yn edrych ymlaen at ddatblygiadau o fewn y sector llywodraeth ganolog yng Nghymru (Rhan 9).

1.3 Nid yw'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r gwaith archwilio ar werth am arian a wnaed gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, sy'n ategu'r adroddiadau gwerth am arian a gyhoeddwyd gennyf i'w hystyried gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad yn ei gyfarfodydd misol.

## Archwilydd Cyffredinol Cymru

1.4 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae'n ofynnol i mi drwy statud archwilio ac ardystio cyfrifon blynyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo a nodi fy marnau i'r Cynulliad. Rwyf yn cynnal fy archwiliadau ariannol yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

1.5 Yn unol ag arferion y sector preifat, mae'r safonau archwilio hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- dilyn gweithdrefnau sydd â'r nod o gael tystiolaeth archwilio ddigonol, ddibynadwy a phriodol i benderfynu gyda hyder rhesymol a yw'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamgymeriad sylweddol; ac
- asesu cyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol er mwyn canfod a gawsant eu paratoi yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon perthnasol.

1.6 Un gofyniad archwilio ychwanegol, sy'n unigryw i gyrff cyhoeddus, yw **rheoleidd-dra**. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i incwm a gwariant pob corff archwiliedig gael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd yn unig a rhaid iddynt gydymffurfio â'r holl awdurdodau a statudau perthnasol sy'n eu rheoli.

1.7 Felly rwyf yn cynllunio fy archwiliadau i fodloni fy hun fod arian a ddarparwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chanddo wedi'i ddefnyddio, ymhob ffordd materol, at y dibenion a fwriadwyd yn unig. Wrth wneud y gwaith hwn, rwyf hefyd yn rhoi sylw i **weddustER** o ran y modd y trafodwyd arian cyhoeddus a'r modd y cynhaliwyd busnes cyhoeddus.

## Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

1.8 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gwneud y gwaith archwilio ariannol manwl sy'n angenrheidiol i gynnal fy nyletswyddau a'm cyfrifoldebau statudol. Ar gyfer y flwyddyn gyfrifo 2000-01, ar fy rhan i, archwiliodd y Swyddfa 32 o gyfrifon a roddodd gyfrif am y rhaglenni gwario a ariannwyd drwy gyllideb bloc Cymru (oddeutu £8,075 miliwn).

1.9 Paratowyd y cyfrifon, yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys, ac ar sail croniadau yn bennaf, gan y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo. Mae'r sefydliadau hyn yn amrywiol iawn o ran natur, maint a chymhlethdod ac yn gweithredu amrywiaeth o weithdrefnau ariannol a systemau cyfrifo gwahanol.

1.10 Dengys **Ffigur 1** amrywiaeth a nifer y cyfrifon a archwiliwyd ar gyfer 2000-01 (nodir rhestr lawn yn yr *Atodiad* i'r Adroddiad).

**Ffigur 1**

**Cyfrifon a archwiliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru 2000-01**

| Y sawl a baratodd y cyfrifon a'r math o gyfrif | Nifer y cyfrifon a archwiliwyd 2000-01 |
|---|---|
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** | |
| Cyfrifon Adnoddau | 2 |
| Cyfrifon Asiantaethau Gweithredol | 2 |
| Cyfrifon cryno GIG Cymru | 3 |
| Cyfrifon Cronfa Bensiwn | 1 |
| Cyfrifon eraill | 3 |
| **Cyrff a noddir */ariennir gan y Cynulliad** | |
| Cyfrifon Elusennau | 4 |
| Cyfrifon Cronfa Bensiwn | 1 |
| Cyfrifon cyrff cyhoeddus eraill a noddir gan y Cynulliad | 11 |
| Cyfrifon eraill | 5 |
| **CYFANSWM** | **32** |

* Mae 13 o gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gyda rhai ohonynt yn cynhyrchu mwy nag un set o gyfrifon.

## Rôl y Swyddog Cyfrifo

1.11 Mae gan bob corff a archwilir gennyf 'Swyddog Archwilio' penodedig (fel arfer yr Ysgrifennydd Parhaol neu'r Prif Weithredwr), sydd ag ystod o gyfrifoldebau allweddol dros reolaeth ariannol o fewn y sefydliad, fel y nodwyd yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cyfrifon blynyddol.

1.12 Ymhlith y cyfrifoldebau hyn mae:

- cadw cyfrifon cywir a pharatoi datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion datgelu eraill;
- gwedduster a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdano; ac
- adolygu effeithiolrwydd systemau a rheolaethau ariannol y sefydliad.

1.13 Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn mae'r Swyddog Cyfrifo yn cael cymorth gan Bwyllgor Archwilio ac uwch dîm rheoli'r corff, ynghyd â chyngor gan yr archwilwyr mewnol, ac, fel archwilwyr allanol, Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

1.14 Gall Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad alw pob Swyddog Cyfrifo i roi tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig ar adroddiadau a gynhyrchir gennyf ar gyfrifon y corff y maent yn gyfrifol amdanynt. Bydd y Pwyllgor, sydd o dan gadeiryddiaeth Aelod Cynulliad sy'n perthyn i un o'r gwrthbleidiau, yn ystyried y dystiolaeth hon ac yna'n cynhyrchu ei adroddiadau ei hun sy'n cynnwys argymhellion y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymateb iddynt drwy statud.

1.15 At ei gilydd, mae'r trefniadau hyn ar gyfer archwilio a chyflwyno adroddiadau yn sicrhau cryn dipyn o atebolrwydd cyhoeddus ac yn rhoi sicrwydd i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth. Yn y rhannau eraill o'r adroddiad hwn, nodaf ganfyddiadau a chanlyniadau allweddol fy ngwaith archwilio ariannol, sy'n rhoi gwybodaeth a sicrwydd pellach ynglŷn â'r materion pwysig hyn.

# RHAN 2 ARCHWILIAD ARIANNOL YN 2000-01

## Cyflwyniad

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi canlyniadau a chasgliadau fy archwiliadau yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn gyfrifo 2000-01. Yn benodol, mae'n crynhoi:

- canlyniadau fy ystyriaeth o bob un o'r cyfrifon a archwiliwyd gennyf yn 2000-01 (paragraff 2.3);
- yr adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf ar Gyfrif Adnoddau Cyfunol y Cynulliad, Cyfrifon Cryno GIG (Cymru) ac iechyd ariannol y GIG yng Nghymru (paragraff 2.5);

2.2 Yn gyffredinol, mae safonau rheolaeth ariannol mewn cyrff sy'n gleientiaid ledled Cymru, yn parhau'n uchel. Roeddwn yn gallu rhoi barn archwilio ddiamod ar bob un o'r cyfrifon a archwiliwyd gennyf namyn un. Yn ystod ei gwaith, roedd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru unwaith eto yn gallu gwneud ystod eang o argymhellion i Swyddogion Cyfrifo ac uwch reolwyr y cyrff sy'n gleientiaid ar gyfer gwella eu systemau rheoli, y ffordd y mae'n cydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio a'r prosesau cyfrifo.

## Canlyniadau'r archwiliadau

2.3 Cyflwynaf adroddiad ar fy ngwaith archwilio ariannol yn y tair ffordd ganlynol:

- **Tystysgrifau i'r datganiadau ariannol** sy'n mynegi'n glir fy marn archwilio. Mae cryn amhendantrwydd yn gysylltiedig â pharatoi pob datganiad ariannol ac mae angen pwyso a mesur wrth benderfynu ar amcangyfrifon a pholisïau cyfrifo, a'r ansicrwydd sy'n rhan annatod o amcangyfrifon ariannol. Wrth bwyso a mesur yn y fath fodd, mae'r archwiliwr yn ystyried pwysigrwydd cymharol pob mater sy'n deillio o'r archwiliad yng nghyd-destun y cyfrif cyfan. Ystyrir bod mater yn berthnasol os yw'n cynnwys camddatgan neu hepgoriad a fyddai'n dylanwadu, yn rhesymol, ar y rhai sy'n defnyddio datganiadau ariannol wrth ddod i gasgliadau ar y wybodaeth sydd ynddynt;
- **Adroddiadau ar y cyfrif** sy'n dwyn i sylw'r Cynulliad faterion sy'n effeithio ar wariant cyhoeddus yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Rwyf bob amser yn cyflwyno adroddiad ar gyfrif pan roddaf farn archwilio amodol arno, ac rwyf hefyd yn cyflwyno adroddiad ar faterion na roddaf farn amodol arnynt os wyf o'r farn eu bod o ddiddordeb sylweddol;
- **Adroddiadau i reolwyr y corff archwiliedig sy'n gleient** yn tynnu sylw at y meysydd lle y gellir gwella systemau a gweithdrefnau o bosibl ac yn gwneud argymhellion adeiladol ac yn rhoi cyngor. Mae'r archwiliadau yn cynnwys asesiad o ddigonolrwydd systemau cyfrifo a chofnodion y corff, cyn belled ag y bo angen hyn er mwyn cynnal archwiliad yn effeithiol. Efallai y bydd yr asesiadau hyn yn amlygu gwendidau yn y rheolaeth ariannol, y rheolaethau neu'r gweithdrefnau eraill a arferir fel rhan o swyddogaethau cyfrifo a gweinyddol y corff archwiliedig. Mae'n bosibl hefyd y daw gwendidau i'r amlwg yn ystod gwaith archwilio ychwanegol yr ymgymerir ag ef er mwyn mynd i'r afael â risgiau penodol, megis rheoleidd-dra a gwedduster. Mae adroddiadau o'r fath yn gwneud argymhellion sy'n mynd i'r afael â'r gwendidau hyn, ac yn cynnwys ymatebion rheolwyr ac amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithredu'r argymhellion. Yn **Rhan 4** o'r adroddiad hwn, rwyf yn crynhoi canfyddiadau allweddol yr adroddiadau hyn mewn perthynas â chyfrifon 2000-01.

## Barn archwilio

2.4 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, rhoddais farn archwilio ddiamod ar bob un o'r 32 o gyfrifon Cymru a ardystiwyd gennyf mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2000-2001 namyn un. Y farn amodol a roddais oedd mewn perthynas â Chyfrifon Cryno'r Awdurdodau Iechyd yng Nghymru. Esboniodd fy adroddiad ar y cyfrif hwn y rhesymau pam y rhoddais farn amodol, a nodir crynodeb o hyn ym mharagraff 2.12.

## Adroddiadau ar gyfrifon

2.5 Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2000-01 cyflwynais adroddiadau sylweddol ar y canlynol:

- cyfrifon craidd a chyfrifon adnoddau cyfunol y Cynulliad (paragraff 2.6);
- cyfrifon cryno GIG (Cymru) (paragraff 2.12); a
- iechyd ariannol y GIG yng Nghymru (paragraff 2.15).

## Cyfrifon adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2.6 Yn fy adroddiad dyddiedig 24 Ionawr 2002, gwneuthum sylwadau ar ganlyniadau fy archwiliadau o gyfrifon craidd a chyfrifon adnoddau cyfunol y Cynulliad ar gyfer 2000-01, y cynnydd a wneir wrth gyflwyno cyllidebu ar sail adnoddau a phrosiect cyfrifon 'Llywodraeth Gyfan Cymru' a sefydlu system ariannol newydd y Cynulliad. Rhoddais farn ddiamod ar y ddau gyfrif adnoddau ar gyfer 2000-01 a chyhoeddwyd fy adroddiad, ynghyd â chyfrif adnoddau cyfunol y Cynulliad, ar 26 Chwefror 2002.

2.7 Yn fy adroddiad, gwneuthum sylwadau ar gyflawniadau'r Cynulliad wrth gynhyrchu ei gyfrif craidd ar gyfer 2000-01 erbyn yr amserlen y cytunwyd arni ac wrth sicrhau bod y gwaith o gysoni cyfrifon â'r banc yn gyfredol. Fodd bynnag, gwneuthum sylwadau hefyd ar y pwysau amser i gwblhau cyfrif adnoddau'r Cynulliad ar gyfer 2000-2001 erbyn y dyddiad statudol sef 30 Tachwedd. Y prif reswm dros y pwysau hyn oedd y ffaith na chadarnhawyd ffigurau allweddol yng nghyfrifon Swyddfa Cyllid Ewrop Cymru a chyfrif cryno'r awdurdodau iechyd yng Nghymru yn derfynol tan yn hwyr. Nodais fod Prif Swyddog Cyfrifo'r Cynulliad wedi cyflwyno'r cyfrifon erbyn y dyddiad terfynol statudol, ond dim ond drwy ymdrech fawr gan ei swyddogion a staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y cyflawnwyd hyn.

2.8 Nodais y byddai'r broses gyfuno hon yn dod yn llawer mwy beichus yn y dyfodol, yn sgîl cyflwyno Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Felly argymhellais y dylai Grŵp Cyllid y Cynulliad gydweithio'n agos â phartïon eraill â diddordeb wrth osod dyddiadau cynharach ar gyfer terfynu a llofnodi'r cyfrifon gwaelodol y mae'r broses gyfuno yn dibynnu arnynt.

2.9 Disgrifiais oblygiadau cyllidebu ar sail adnoddau a nodais benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ohirio cyflwyno cyllidebu ar sail adnoddau yng Nghymru tan 2002-03. Fel rhan o'r broses hon, roedd y Cynulliad wedi troi ei amcangyfrifon o arian parod ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn amcangyfrifon o adnoddau, a effeithiodd ar gylch cynllunio cyllideb y Cynulliad yn 2001 ar gyfer y cyfnod 2002-03 i 2004-05.

2.10 Amlinellais hefyd weithdrefnau cyfrif 'Llywodraeth Gyfan Cymru' y bydd yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei gynhyrchu ar sail prawf cynyddol. Gan ddibynnu ar ganlyniad y broses, efallai y bydd modd i'r Cynulliad gyfuno cyfrifon y cyrff a noddir ganddo yn y cyfrifon hyn flwyddyn ynghynt na'r DU gyfan.

2.11 Yn olaf, gwneuthum sylwadau yn fy adroddiad ar system gyfrifo ariannol a rheoli newydd y Cynulliad, y penderfynodd ei Grŵp Cyllid ohirio ei gweithredu tan 1 Ebrill 2002 er mwyn rhoi cyfnod estynedig i'w chynllunio a rhoi prawf arni. Nodais fod swyddogion y Cynulliad wedi fy hysbysu fod y prosiect yn mynd ei flaen yn dda a'i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedu gweithredu sef 1 Ebrill 2002, gyda chyfleusterau penodol eraill yn cael eu cyflwyno'n raddol yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

## Cyfrifon Cryno'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)

2.12 Cyhoeddwyd tri chyfrif cryno GIG Cymru ar gyfer 2000-01 ar 28 Chwefror 2002 ynghyd â'm hadroddiad sy'n esbonio hyd a lled cwmpas fy marn archwilio ar Gyfrif Cryno'r Awdurdodau Iechyd yng Nghymru. Mae'r farn archwilio hon yn adlewyrchu'r farn a roddwyd gan archwilwyr penodedig ymhob un o'r pum awdurdod iechyd yng Nghymru mewn perthynas â'r diffyg posibl mewn refeniw o daliadau presgripsiynau na ellir ei feintioli.

2.13 Nid oedd gan yr awdurdodau iechyd systemau ar waith ar gyfer nodi ac adennill y symiau a oedd yn ddyledus i GIG Cymru ond nas casglwyd gan fferyllwyr am nad oedd rhai o'r unigolion a oedd yn hawlio eu bod wedi'u heithrio rhag talu presgripsiynau yn gymwys. Er enghraifft, mae'n bosibl nad oedd unigolyn yn cael budd-dal nawdd cymdeithasol cymwys ar adeg dosbarthu'r presgripsiynau. Mae'r awdurdodau iechyd yn gweithio gyda Chyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad ac Atebion Iechyd Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu a fydd yn mynd i'r afael â'r broblem yn ystod 2001-2002.

2.14 Nododd fy adroddiad ar gyfrif cryno'r awdurdodau iechyd hefyd fod archwilwyr penodedig y Bwrdd Arferion Deintyddol wedi rhoi barn amodol ar y cyfrif am Wasanaethau Deintyddol cyffredinol yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â gwariant anaddas o ryw £70 miliwn ar draws y ddwy wlad. Roedd hyn yn cynnwys camgymeriad gweinyddol, methiant i ddeall rheoliadau, gwaith anaddas neu waith o ansawdd wael a dwyn yn fwriadol. Nid oedd y Bwrdd Arferion Deintyddol yn gallu nodi ar wahân yr elfen honno o'r £70 miliwn a wariwyd a oedd yn ymwneud â Chymru. Fodd bynnag, cyfanswm gwariant y Bwrdd Arferion Deintyddol

oedd tua £1,540 miliwn yn 2000-01, gyda thua £91 miliwn ohono yn ymwneud â Chymru. Yng nghyd-destun cyffredinol y cyfrif cryno, sy'n cynnwys gwariant o £2.9 biliwn, nid yw'r swm tebygol o wariant anaddas ar gyfer Cymru yn debygol o fod yn un sylweddol ac felly ni roddais unrhyw amod ar fy marn o ran hynny.

## Iechyd ariannol y GIG yng Nghymru

2.15 Cyhoeddir fy adroddiadau blynyddol ar gyllid GIG Cymru yn lle'r adroddiadau blynyddol blaenorol ar Gyfrifon Cryno'r GIG, sydd bellach yn cael eu cyhoeddi ar wahân. Yn fy adroddiad ar gyfer 2002, a gyhoeddwyd ar 20 Mawrth 2002, gwneuthum sylwadau ar faterion sy'n ymwneud a pherfformiad ariannol ac ystyriais hefyd sawl her allweddol arall y mae'r GIG yng Nghymru yn eu hwynebu.

### Perfformiad ariannol; canlyniadau a thueddiadau blynyddol

2.16 Y canlyniad ariannol cyffredinol ar gyfer cyrff GIG yng Nghymru yn 2000-01 oedd gwarged o £24.3 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys gwarged o £7.6 miliwn o ymddiriedolaethau'r GIG, gwarged o £16.8 miliwn o'r awdurdodau iechyd a diffyg o £0.1 miliwn o weithgareddau'r Bwrdd Arferion Deintyddol yng Nghymru. Y canlyniad cymharol ar gyfer 1999-2000 oedd diffyg o £1.6 miliwn, yn cynnwys diffyg o £0.7 miliwn o ymddiriedolaethau'r GIG, diffyg o £0.5 miliwn o'r awdurdodau iechyd a diffyg o £0.4 miliwn o'r Bwrdd Arferion Deintyddol.

2.17 Yn ystod 2000-01, cafodd ymddiriedolaethau'r GIG £19.2 miliwn o gymorth ariannol strategol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i helpu i'w hadfer yn ariannol. Heb gymorth o'r fath, byddai diffyg o £11.6 miliwn wedi bod yn lle'r gwarged o £7.6 miliwn. Roedd Cyfarwyddiaeth y GIG yn rhagweld y byddai'n rhoi £9.5 miliwn arall o gymorth strategol yn ystod 2001-02. Mynegodd yr archwilwyr penodedig bryder ynglŷn â'r sefyllfa ariannol mewn naw o'r 15 o ymddiriedolaethau GIG (12 allan o 16 ar gyfer 1999-00), gan gynnwys pedwar lle'r oedd amheuon gan yr archwilwyr ynglŷn â gallu'r ymddiriedolaeth i gyflawni cynlluniau adfer.

2.18 Mae'r rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn 2001-2002 yn parhau'n hyblyg oherwydd prinder gwybodaeth am wariant ar gyffuriau gofal sylfaenol. Yn ôl y rhagamcan diweddaraf sydd ar gael mae GIG Cymru yn disgwyl y bydd ganddo ddiffyg net cyffredinol rhwng £8.6 miliwn a £16.8 miliwn ar gyfer y flwyddyn.

### Mesurau i fynd i'r afael â thwyll yn y GIG a gwella rheolaeth ariannol

2.19 Mae angen dybryd i asesu lefel bresennol y twyll o fewn GIG Cymru yn well. Sefydlwyd y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Gweithredol (Cymru) ym mis Mai 2001 ac mae'n cynnal ymarferion sy'n mesur twyll sy'n gysylltiedig â phresgripsiynau, gwasanaethau optegol a gwasanaethau deintyddol. Bydd canlyniadau'r ymarfer cyntaf ar bresgripsiynau yn hysbys erbyn haf 2002. Mae'r tîm sydd â chwe aelod hefyd wrthi'n ymchwilio i 20 o achosion o dwyll a amheuir.

2.20 Ar gyfer 2000-01, nododd tri awdurdod iechyd a phedair ymddiriedolaeth GIG nad oeddent wedi cydymffurfio â'r isafswm safonau rheoli ariannol a nodwyd gan y Cynulliad. Fodd bynnag, canfu'r archwilwyr a benodwyd fod cyrff GIG hefyd yn cael anhawster i gydymffurfio â'r safonau risg ehangach sydd â'r nod o ddiogelu cleifion, staff, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Ar gyfer 2000-01, roedd yn ofynnol i ymddiriedolaethau GIG gadarnhau'r cynnydd a wnaed ganddynt yn erbyn y safonau hyn yn eu hadroddiadau blynyddol. Nododd pum ymddiriedolaeth nad oeddent wedi cydymffurfio â'r safonau a bennwyd gan y Cynulliad - dwy am nad oeddent wedi cwrdd â'r dyddiad terfynol sef Mawrth 2001 a thair am nad oeddent wedi cyrraedd y targedau.

### Rheoli cost Esgeulustra Clinigol

2.21 Sefydlwyd Cronfa Risg Cymru i gynorthwyo cyrff GIG ym maes rheoli risg a setlo ceisiadau. Fe'i hariennir drwy gyfraniadau gan yr aelod-gyrff. Talodd y Gronfa ryw £18.6 miliwn yn fwy na'r disgwyl yn 2001-02, oherwydd anawsterau o ran rhagweld dyddiadau setlo ceisiadau a faint o arian y byddai'n rhaid ei dalu. Talwyd am y gwariant hwn nas cynlluniwyd drwy danwariant mewn mannau eraill yng nghyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a thrwy lithriant ar rhai rhaglenni di-gyfalaf i 2002-03. Mae Cyfarwyddiaeth y GIG yn rhagweld hefyd y bydd angen £23 miliwn arall i ariannu'r Gronfa yn 2002-03.

# RHAN 3 GWEITHIO GYDA'R ARCHWILIAD MEWNOL

## Cyflwyniad

3.1 Swyddogaeth yr archwiliad mewnol yw gweithredu fel gwasanaeth i reolwyr pob corff archwiliedig drwy fesur a gwerthuso pa mor effeithiol yw ei systemau rheoli mewnol. Felly mae archwiliad mewnol yn rhan bwysig o'r systemau rheoli ymhob sefydliad. Er mwyn sicrhau bod archwilwyr mewnol mor effeithiol â phosibl, dylent gael annibyniaeth briodol ar reolwyr, drwy roi hawl iddynt gyflwyno adroddiadau'n uniongyrchol i'r Swyddog Cyfrifo a Phwyllgor Archwilio'r corff neu'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol, neu bwyllgor cyfatebol.

3.2 Mae'n hollbwysig bod gan bob sefydliad wasanaeth archwilio mewnol proffesiynol cadarn, sy'n rhoi dadansoddiadau a chyngor manwl i reolwyr yr endid. Mae'r gwasanaeth hwn yn elfen allweddol o'r sicrwydd a gaiff y Swyddog Cyfrifo bod systemau rheoli'r sefydliad yn gweithredu'n effeithiol.

3.3 Mae'r broses archwilio fewnol yn cychwyn cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, pan fydd y Pwyllgor Archwilio neu'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Asesiad o Anghenion Archwilio. Dylai orffen drwy gyflwyno adroddiad blynyddol yr archwiliad mewnol i'r Pwyllgor, cyn i'r Swyddog Cyfrifo lofnodi'r Datganiad Rheoli Mewnol. Mae adroddiad blynyddol yr archwiliad mewnol yn rhoi golwg ar ddigonolrwydd prosesau rheoli mewnol y sefydliad; felly mae angen iddo ystyried rôl rheoli risg sy'n datblygu ym maes rheoli mewnol a rheolaeth gorfforaethol.

### Darparwyr gwasanaethau archwilio mewnol yng Nghymru

3.4 Mae llawer o sefydliadau yn gweithredu eu swyddogaeth archwilio mewnol eu hunain, er bod 11 o'r 22 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a gwmpaswyd gan yr adroddiad wedi llunio contract â chwmnïau cyfrifyddu i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r contractau hyn yn parhau hyd at bum mlynedd ac maent i gyd wedi'u rhoi drwy dendr cystadleuol. Mae gwasanaeth archwilio mewnol y Cynulliad yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol ychwanegol ar gyfer Estyn, Cadw a Swyddfa Cyllid Ewrop Cymru, gyda swyddogion y Cynulliad hefyd yn ymgymryd â'u swyddogaethau ariannol. Mae'r Adran Cyflogaeth ac Addysg yn darparu gwasanaeth archwilio mewnol i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd y Gwasanaeth Iechyd Yng Nghymru. Mae gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Menter Coedwigaeth Cymru eu gwasanaethau archwilio mewnol eu hunain.

## Sicrwydd a roddir gan archwilwyr mewnol ar gyfer 2000-01

3.5 Drwy'r 'Asesiadau o Anghenion Archwilio' ffurfiol a wnaed gan archwilwyr mewnol ac y cytunwyd arnynt gyda'r Pwyllgor Archwilio neu'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol perthnasol, mae'r archwilwyr mewnol ymhob corff yn ceisio cwmpasu ystod o systemau craidd bob blwyddyn. Caiff systemau allweddol eraill eu harchwilio yn gylchredol. Penderfynir ar hyn drwy ddadansoddiad o'r risgiau o wallau sydd ynghlwm wrth y systemau hynny a'u harwyddocâd a'u heffaith debygol.

3.6 Ar gyfer pob un o'r 22 o gyrff, roedd y pennaeth Archwiliad Mewnol perthnasol yn gallu rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifo ynghylch effeithiolrwydd y ffordd y caiff systemau rheoli ariannol mewnol eu sefydliad eu gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2000-01.

3.7 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn adolygu digonolrwydd trefniadau archwilio mewnol ymhob un o'i chleientiaid archwilio fel rhan o'i archwiliad blynyddol o'i gweithdrefnau. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2000-01, daeth i'r casgliad bod cwmpas yr archwiliad mewnol ymhob corff yn parhau i fod yn ddigonol, er iddo nodi nad oedd gan un o'i chleientiaid Asesiad o Anghenion Archwilio a chynllun gweithredu i ategu'r gwaith a wnaed gan yr archwilwyr mewnol.

## Dibyniaeth ar yr archwiliad mewnol

3.8 Wrth gynnal ei harchwiliadau o gyfrifon 2000-01, ystyriodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru waith yr archwiliad mewnol ac a oedd unrhyw bosibilrwydd o gael sicrwydd cost effeithiol o'r gwaith hwnnw.

3.9 Mae'n rhaid bod dibynnu ar waith archwilwyr mewnol yn y fath fodd, wedi'i hwyluso drwy gyfarfodydd cydgysylltu rheolaidd, rhannu canfyddiadau a syniadau, a thrafod risgiau archwilio a rheolaethau lleddfu sydd ar waith, yn fanteisiol i'r swyddogaeth archwilio gyffredinol. Bydd cydweithio o'r fath hefyd, dros amser, yn lleihau cost a baich y broses archwilio. Nodir un enghraifft o'r camau a gymerwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ystod 2000-01 i gydweithio'n agosach ag archwilwyr mewnol ei chleientiaid yn **Ffigur 2**.

## Ffigur 2

### Cydweithio â'r Archwiliad Mewnol

Yn ystod 2000-01, lansiodd Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad wasanaeth newydd i'w gwsmeriaid. Cynhaliwyd yr adolygiad archwilio o'r swyddogaeth newydd hon ar y cyd gan archwilwyr mewnol y corff a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru:

- ystyriodd tîm archwilio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddigonolrwydd a rheoleidd-dra'r gweithdrefnau tendro a ddefnyddiwyd gan y corff wrth sefydlu'r gwasanaeth newydd;
- cynhaliodd tîm yr archwiliad mewnol adolygiad o ansawdd y gwasanaeth newydd a gyflwynwyd i'r cwsmeriaid.

Bu'r adolygiad ar y cyd hwn yn gost effeithiol a lleihawyd y beichiau ar reolwyr y corff, gan fod modd i'r naill grŵp o archwilwyr a'r llall ddibynnu ar ganfyddiadau ei gilydd. Roedd Pwyllgor Archwilio'r corff yn gallu ystyried casgliadau ac argymhellion y ddau grŵp o archwilwyr, ac mae cyfleoedd posibl eraill i gydweithio yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

## Cyflwyniad

4.1 Yn y rhan hon o'm hadroddiad, rwyf yn disgrifio'r prif wasanaethau archwilio ychwanegol a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i'w chleientiaid sy'n deillio o'i gwaith archwilio ariannol blynyddol a byddaf yn tynnu sylw at y materion allweddol sy'n deillio o'r gwaith hwn ar gyfrifon 2000-01.

## Ychwanegu gwerth- Adroddiadau i Reolwyr Cleientiaid

### Llythyrau Rheoli

4.2 Wrth gynnal archwiliad o ddatganiadau ariannol blynyddol corff, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ystyried y systemau cyfrifo a rheoli mewnol i'r graddau bod angen hynny i lunio barn ar y cyfrifon. Gwneir hyn i gael sicrwydd annibynnol bod y cyfrifon wedi'u paratoi'n gywir a bod yr incwm a'r gwariant wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd. Pan fydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, yn ystod ei gwaith, yn nodi gwendidau yng nghynllun y systemau hyn neu'r ffordd y cânt eu gweithredu, neu welliannau posibl y gellid eu gwneud i effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd gweithrediadau'r cleient, mae'n gallu cynnig **cyngor** priodol ac adeiladol **i reolwyr**.

4.3 Mae'r cyngor a roddir yn ystod archwiliadau yn gyngor ar lafar fel arfer, ond caiff materion pwysicach eu codi'n ffurfiol ar ddiwedd yr archwiliad. Anfonir **llythyr rheoli** at uwch reolwyr y cleient. Maent yn ymateb iddo gan nodi amserlen ar gyfer gweithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt fel y gellir monitro'r cynnydd a wneir. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cydnabod bod angen i reolaethau fod yn gost effeithiol, ac mae'n anelu at lunio argymhellion ymarferol sydd o gymorth gwirioneddol i'w chleientiaid wrth iddynt ymdrechu i gynnal eu busnes yn effeithlon ac yn effeithiol heb greu biwrocratiaeth ddiangen.

## Adolygiadau 'Sicrwydd Ychwanegol'

4.4 Yn 2000-01, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru **'adolygiadau sicrwydd ychwanegol'** ymhob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad unwaith eto, ar gais adrannau'r Cynulliad sy'n eu noddi. Ystyriodd yr adolygiadau hyn agweddau penodol ar weithrediadau ymhob corff a allai effeithio ar weinyddiaeth ariannol y sefydliadau hynny.

4.5 Bwriad y gwaith hwn oedd rhoi sicrwydd i reolwyr y corff archwiliedig a swyddogion y Cynulliad yn ychwanegol at y sicrwydd a gaent o'r archwiliad allanol blynyddol safonol o'r cyfrifon eu hunain. Mewn sawl achos, gall y gwaith hwn ychwanegu gwerth drwy argymell gwelliannau i systemau, rheolaethau a gweithdrefnau.

4.6 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yr archwiliadau hyn ar gyfer pob un o'r 13 o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Er i union gwmpas pob adolygiad gael ei deilwra i amgylchiadau'r corff archwiliedig unigol, mae rhai elfennau craidd yn rhan o bob adolygiad. Ymhlith y rhain mae gwiriadau wedi'u cynllunio i nodi:

- a weithredwyd y systemau rheoli yn effeithiol;
- a fu unrhyw adegau pan nad oedd aelodau o'r staff wedi gweithredu'n unol â'r safonau uchel o uniondeb ariannol a ddisgwylir gan y rhai sy'n gyfrifol am reoli arian cyhoeddus; ac
- a oedd unrhyw wariant afrad neu wastraffus yn ystod y cyfnod.

## Canfyddiadau

4.7 Yn fyr, dengys canlyniadau cyffredinol fy ngwaith ym maes archwilio ariannol bod safonau cyffredinol rheolaeth ariannol ymhlith cyrff archwiliedig sy'n gleientiaid ledled Cymru yn parhau'n dda yn ystod 2000-01. Fodd bynnag, roedd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gallu gwneud nifer o argymhellion, yn y Llythyrau Rheoli a'r adroddiadau 'Sicrwydd Ychwanegol', ar gyfer gwella amgylchedd rheoli a phrosesau cyfrifo pob corff.

4.8 Gwnaeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gyfanswm o 153 o argymhellion i reolwyr cyrff archwiliedig sy'n gleientiaid yng Nghymru mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2000-01. Roedd hyn yn cymharu â 116 o argymhellion ar gyfer 1999-2000. O'r rhain, dosbarthwyd 78 (51 y cant) yn argymhellion 'Blaenoriaeth 1', a oedd yn gofyn i reolwyr cleientiaid weithredu arnynt ar unwaith.

4.9 Er bod y mwyafrif llethol o'r pwyntiau hyn yn ymwneud â materion a ddaeth i'r golwg am y tro cyntaf yn ystod 2000-01, nodais na weithredwyd ar argymhellion a ddeilliodd o archwiliad ariannol y flwyddyn flaenorol ar adegau. Rhoddir enghreifftiau o'r rhain yn **Ffigur 3**.

**Ffigur 3**

**Enghreifftiau o argymhellion a wnaed ym 1999-2000 na weithredwyd arnynt yn 2000-01**

- Yn 1999-2000 anfonodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru lythyr rheoli at glient yn nodi bod perygl y câi anfonebau prynu a gwerthu rhanbarth eu hesgeuluso yng ngweithdrefnau canolog y cleient ar gyfer nodi balansau dyledwyr a chredydwyr. Argymhellodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y dylid cynnal adolygiad manwl o falansau ar ddiwedd y flwyddyn ar lefel Ranbarthol, ynghyd ag adolygiad lefel uwch gan yr Adran Gyllid. Fodd bynnag, ar gyfer 2000-01 parhaodd y cleient i ddilyn ei weithdrefnau cyfredol ac, o ganlyniad, gwnaed rhagor o gamgymeriadau.
- Roedd pob un o lythyrau rheoli'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru at un cleient ers 1998-99 wedi nodi methiant i gadw dogfennaeth allweddol ar ffeiliau personél a hefyd fethiant i neilltuo cyfrifoldebau penodol yn briodol rhwng adran bersonél ac adran gyllid y corff. Mynegwyd cryn bryder yn Llythyr Rheoli 2000-01 ynglŷn â'r ffaith nad oedd y corff wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Erbyn hyn mae uwch reolwyr y cleient yn cymryd camau unioni.

4.10 Mae rheolwyr cleientiaid yn cytuno ar bob argymhelliad a wneir gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o ran cywirdeb ffeithiol ac maent yn rhoi ymateb sylweddol i bob pwynt ynghyd â dyddiad targed ar gyfer gweithredu'r argymhelliad. Felly mae'n achos pryder i mi nodi enghreifftiau lle nad yw'r rheolwyr wedi cymryd camau unioni amserol. Er bod Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wrth gwrs yn gwneud gwaith dilynol ar gamau rheolwyr sydd heb eu gwneud fel rhan o archwiliad dilynol y flwyddyn, rwyf o'r farn ei bod yn anfoddhaol bod achosion lle mae'n rhaid ailadrodd pwyntiau ac argymhellion mewn blynyddoedd olynol.

4.11 Yn y paragraffau dilynol, rwyf yn nodi dwy thema sydd wedi dod i'r amlwg yn sgîl y pwyntiau a godwyd mewn Llythyrau Rheoli ac adolygiadau 'Sicrwydd Ychwanegol' ar gyfer 2000-01:

- Cymeradwyo a monitro grantiau; a
- Rheoli arian parod.

## Thema: Cymeradwyo a monitro grantiau

4.12 Mae'n hollbwysig bod gan bob corff sy'n rhoi grant systemau effeithiol ar waith ar gyfer gwerthuso ceisiadau am grant a'u monitro mewn modd amserol tra bod y prosiect yn mynd yn ei flaen ac ar ôl iddo ddod i ben. Codwyd argymhellion Blaenoriaeth 1 mewn perthynas â chymeradwyo a monitro grantiau gyda sawl un o'n cleientiaid archwilio, a rhoddir enghreifftiau o'r rhain yn **Ffigur 4**.

**Ffigur 4**

**Rheoli gwariant grant**

- Dangosodd canlyniadau ein profion archwilio nad oedd cleient wedi ymgymryd â nifer o ymweliadau monitro arfaethedig â'r rhai a oedd wedi cael grant yn ystod 2000-01 oherwydd anawsterau staffio.

  Gallai'r methiant i ymgymryd â digon o ymweliadau monitro olygu o bosibl nad yw'r cleient yn canfod achosion o or-ariannu, tor-amod grant neu wariant afreolaidd gan y rhai sydd wedi cael grant.

  Argymhellodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y dylid cynllunio rhaglen lawn o ymweliadau monitro ac ymgymryd â hwy, ac y dylid rhoi'r flaenoriaeth uchaf i ymweliadau â phrosiectau a oedd newydd eu cwblhau i adolygu dogfennaeth allweddol sy'n ategu rhandaliadau grant terfynol.

- Nodwyd gennym nad oedd y ddogfennaeth a gadwyd gan un o'r cleientiaid eraill yn ddigonol. Nid oedd tystiolaeth yn gyffredinol i nodi a oedd y prosiectau â chymorth grant wedi'u monitro'n briodol ac nid oedd tystiolaeth ategol i gysoni'r symiau a hawliwyd â gwariant gwirioneddol.

  Argymhellodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y dylai rheolwyr y cleient weithredu gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y gwaith monitro wedi'i ddogfennu'n ddigonol a bod system archwilio lawn ar waith i ategu gwariant grant a hawliwyd ac a dalwyd.

## Thema: Rheoli arian parod

4.13 Mae'r ffordd y caiff arian parod ei reoli yn rhan annatod o reolaeth ariannol ymhob sefydliad a chododd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru bryderon gyda phump o gleientiaid archwilio mewn perthynas â'r mater hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2000-01. Ymhlith y canfyddiadau roedd y canlynol:

- methiant i gysoni â'r banc yn amserol;
- balansau cyfrifon banc mewn gorddrafft;
- sieciau'n mynd ar goll; a
- defnydd anawdurdodedig o daliadau debyd uniongyrchol.

4.14 Ymhob achos, gwnaed argymhellion wedi'u geirio'n gryf i uwch reolwyr y corff dan sylw. Bydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn parhau i fonitro achosion o fethiant rheolaeth yn y maes pwysig hwn yn ofalus.

# RHAN 5 CRONFEYDD STRWYTHUROL EWROP

## Cyflwyniad

5.1 Mae'n bwysig bod Cymru yn sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r lefelau uwch o gymorth ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd o Gronfeydd Strwythurol Ewrop. Mae gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru rôl bwysig i'w chwarae yn hyn o beth, gan helpu i sicrhau bod y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith ar gyfer gweinyddu'r arian yn gadarn a bod yr arian sydd ar gael yn cael ei wario'n effeithiol ac at y dibenion a fwriadwyd. Mae'r rhan hon o'm hadroddiad:

- yn rhoi trosolwg o Gronfeydd Strwythurol Ewrop yng Nghymru;
- yn esbonio fy rôl a'm cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r gwaith o archwilio'r symiau hynny; a
- yn crynhoi canfyddiadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru sy'n deillio o'r archwiliadau y mae wrthi'n eu gwneud o geisiadau unigol am grantiau Ewropeaidd.

## Cronfeydd Strwythurol Ewrop yng Nghymru

5.2 Mae pedair Cronfa Strwythurol Ewrop:

- **Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop**, sy'n anelu at leihau anghydraddoldebau rhanbarthol;
- **Cronfa Gymdeithasol Ewrop**, sy'n anelu at wella rhagolygon gwaith ar draws yr Undeb Ewropeaidd;
- **Cronfa Canllawiau a Gwarant Amaethyddol**, sy'n rhan-ariannu cynlluniau cymorth amaethyddol cenedlaethol (yr adran Gwarant) ac yn cynorthwyo'r ffordd y mae cymunedau mewn ardaloedd gwledig yn datblygu ac yn arallgyfeirio (yr adran Canllawiau); a
- yr **Offeryn Ariannol ar gyfer Canllawiau ar Bysgodfeydd**, sy'n cynorthwyo'r broses o ailstrwythuro'r sector pysgodfeydd.

5.3 Mae Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn rhoi cymorth grant ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd o dan Raglenni a Mentrau Cymunedol y cytunwyd arnynt rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a'r Aelod-wladwriaethau. Nod Rhaglenni Ewropeaidd yw mynd i'r afael ag Amcanion a bennwyd gan y Comisiwn. Mae arian o dan dair Rhaglen ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd:

- **Rhaglen Amcan 1**, sy'n gweithredu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, sydd â'r nod o hyrwyddo datblygu ac addasu strwythurol rhanbarthau y mae eu datblygiad economaidd ar ei hôl hi o'u cymharu â rhanbarthau eraill yn y Gymuned;
- **Rhaglen Amcan 2**, sy'n gweithredu yn Nwyrain Cymru, sy'n cefnogi'r broses o weddnewid ardaloedd sydd wedi dioddef fwyaf yn sgîl dirywiad trefol a diwydiannol, ailstrwythuro a cholli gweithgareddau traddodiadol mewn ardaloedd gwledig; a
- **Rhaglen Amcan 3**, sy'n gweithredu ymhob ardal y tu allan i ardal Amcan 1, sydd â'r nod o wrthsefyll diweithdra hirdymor drwy fynd i'r afael â materion megis allgáu cymdeithasol a chyfle cyfartal, a thrwy hyrwyddo dysgu gydol oes.

5.4 Gall sefydliadau sy'n bodloni meini prawf cymhwyster a nodwyd yn Nogfennau'r Rhaglen y cytunwyd arnynt gan y Comisiwn, wneud cais am gymorth grant tuag at eu prosiectau. Bydd y Rhaglen gyfan yn costio Euro 4.556 biliwn (ychydig dros £2.85 biliwn), gyda Euro 2.107 miliwn (tua £1.3 biliwn) o gyfanswm yr arian Ewropeaidd hwnnw ar gael i Gymru yn ystod cyfnod cyfredol y rhaglen. Mae'r cyfnod cyfredol yn rhedeg o 1 Ionawr 2000 i 3 Rhagfyr 2006, er y gall taliadau barhau am bob prosiect cymeradwy tan fis Rhagfyr 2008. Gwneir taliadau gweddilliol o hyd i Raglennu hyn (wedi'u cau) hefyd.

## Rôl a chyfrifoldebau statudol

5.5 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, fi yw archwiliwr statudol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, sy'n un o Asiantaethau Gweithredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2000 i weinyddu arian Ewropeaidd yng Nghymru.

5.6 Wrth archwilio cyfrifon blynyddol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (sy'n cofnodi gwariant ar raglenni Ewropeaidd a chostau rhedeg y Swyddfa ei hun, a ariennir gan y Cynulliad), mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad sylweddol. Rwyf hefyd yn rhoi sicrwydd bod yr incwm a'r gwariant a nodwyd yn y cyfrifon wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Cynulliad. (Yn ogystal, fel y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, rwyf yn gyfrifol am archwilio adran 'Gwarant' Cronfa Canllawiau Amaethyddol a Gwarant Ewrop ar draws y Deyrnas Unedig.)

5.7 Wrth gyflawni fy ngwaith archwilio ar gyfrifon Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, rwyf yn rhoi sylw i reoliadau Ewrop sy'n rheoli'r ffordd y caiff cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol ei weinyddu. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r rheoliadau hyn yn berthnasol i'm barn archwilio - y mae'r Bwrdd Arferion Archwilio yn pennu ar ba ffurf y'i rhoddir. (Er enghraifft, o dan reoliadau Ewrop mae'n ofynnol i'r rhai sy'n cael grant roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod eu prosiect wedi cael arian Ewropeaidd. Ni fyddai diffyg cydymffurfio â'r gofyniad hwn ynddo'i hun yn effeithio ar reoleidd-dra'r gwariant grant a ddatgelwyd yng nghyfrifon Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac felly ni fyddai'n dylanwadu ar fy marn archwilio.) Rwyf hefyd yn rhoi sylw i waith archwilwyr eraill, gan ddibynnu ar eu gwaith lle bynnag y bo modd i osgoi dyblygu gwaith a lleihau'r baich archwilio ar y rhai sy'n cael grant i'r eithaf. Er enghraifft, gallaf ddibynnu ar dystysgrifau archwilio a ddarperir gan Archwilwyr Dosbarth mewn perthynas â cheisiadau am grantiau Ewropeaidd a wnaed gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

5.8 Ar gyfer 2000-01, roeddwn yn gallu rhoi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon blynyddol cyntaf Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Hefyd rhoddais gyngor i reolwyr y Swyddfa honno ynglŷn â'r systemau a'r rheolaethau sydd ar waith ar gyfer gweinyddu arian Ewropeaidd yng Nghymru, gan nodi nifer o wendidau mewn rheolaethau a gwneud argymhellion i'w gwella.

5.9 Bwriadaf barhau i roi blaenoriaeth uchel i'r gwaith hwn wrth i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ddod yn gyfrifol am wariant grant cynyddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a hefyd am fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi ymgymryd â rheoli Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn lle'r hen Adran Addysg a Chyflogaeth ers 1 Ebrill 2001.

5.10 Mae'n dda gennyf nodi bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi caniatáu i mi archwilio derbynwyr terfynol yr holl arian Ewropeaidd yng Nghymru ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd ers 1 Ionawr 2000, gan roi modd i mi roi mwy o sicrwydd bod yr arian wedi'i wario at y dibenion a fwriadwyd.

## Archwilio Ceisiadau am Grantiau Ewropeaidd

5.11 Mae'n ofynnol i bob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd, ac eithrio grantiau am lai na £20,000 o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, gyflwyno tystysgrifau archwilio i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ategu eu ceisiadau blynyddol am grant. Ar ddiwedd pob prosiect, mae'n rhaid cyflwyno tystysgrif archwilio derfynol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru hefyd cyn iddi dalu'r rhandaliad olaf o'r grant.

5.12 Yn ystod 2000-01, ac yn ychwanegol at archwilio cyfrifon Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ei hun, darparodd staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru dystysgrifau archwilio ar gyfer sawl cais am grant ar gais nifer o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Wrth archwilio ceisiadau blynyddol a cheisiadau ar ddiwedd prosiect am grantiau Ewropeaidd, mae'r staff yn Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn rhoi sylw i'r cyfarwyddiadau archwilio a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yn ogystal â safonau archwilio a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

5.13 Rhwng 1 Ebrill 2000 a 31 Ionawr 2001, rhoddodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru naw tystysgrif archwilio flynyddol a 15 tystysgrif archwilio derfynol am brosiectau a gymeradwywyd o dan y Rhaglenni a Mentrau Ewropeaidd hyn. Rhoddwyd barn amodol ar wyth o'r tystysgrifau hyn.

5.14 Yn mhob achos, nid oedd y rhesymau dros beidio â rhoi barn ddiamod mor ddifrifol fel na allai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru dalu'r grantiau i'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a oedd yn noddi'r prosiectau. Fodd bynnag, roedd y farn amodol yn dangos nad yw rheolwyr prosiectau weithiau yn ymwybodol o'r holl amodau sy'n ymwneud â dogfennaeth a'r amodau eraill sydd ynghlwm wrth grantiau Ewropeaidd. Ymhlith y rhesymau am roi barn amodol roedd:

- gwybodaeth anghywir a gwallau wrth gwblhau ffurflenni cais am grantiau;
- methiant i gategoreiddio gwariant yn gywir yn ôl y flwyddyn galendr a'r flwyddyn ariannol;
- enghreifftiau o drosglwyddo arian rhwng categorïau o wariant heb gytundeb blaenorol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru; ac
- achosion o golli anfonebau neu ddogfennau eraill a oedd yn ategu'r gwariant a hawliwyd ar gyfer y prosiect.

5.15 Cymeradwyir nifer gynyddol o brosiectau o dan y tair Rhaglen a Menter Gymunedol Ewropeaidd newydd. O ganlyniad mae baich gwaith Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cynyddu'n sylweddol, gan ei bod yn archwilio mwy o geisiadau am grantiau Ewropeaidd ar ran Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a hefyd y Cynulliad ei hun. Mae ei staff yn gweithio ar 30 o geisiadau o'r fath am grantiau ar hyn o bryd a disgwylir y bydd 31 o geisiadau eraill i'w hadolygu yn ystod 2002.

5.16 Mae'n rhy gynnar dod i gasgliadau sylweddol yn seiliedig ar y gwaith sy'n mynd yn ei flaen ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae canlyniadau archwiliadau hyd yma yn nodi bod sawl problem wedi codi am nad yw'r rhai a gafodd grantiau wedi dogfennu gwariant y prosiect yn ddigonol. Mae hyn yn amlwg, yn arbennig, mewn prosiectau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, sydd yn aml yn cael eu cyflwyno gan drydydd parti sy'n gweithredu ar sail hyd braich oddi wrth noddwyr y prosiect. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gweithio gyda noddwyr prosiectau, mewn cydweithrediad agos â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, i sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r gwaith o gyflwyno prosiectau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn deall pa mor bwysig ydyw cadw tystiolaeth ddogfennol allweddol megis taflenni gwaith a chofnodion o'r rhai sy'n cael budd o dan y prosiect.

## Crynodeb

5.17 Disgwylir i nifer y prosiectau a ariennir gan Ewrop a gwerth y prosiectau hynny gynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, felly mae'n hollbwysig sicrhau y caiff pob un o'r prosiectau hyn eu rheoli'n gywir. Oni wneir hynny, mae'n bosibl y bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn adfachu'r grant o noddwyr prosiectau unigol. Ar y cyd â Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, byddaf yn parhau i weithio gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, y Cynulliad a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir ganddo i helpu i leihau'r risgiau posibl hyn i'r eithaf.

# RHAN 6 GOHEBIAETH A GWAITH ARALL

## Cyflwyniad

6.1 Yn ogystal â'm gwaith archwilio ariannol a'm gwaith ar werth am arian, rwyf wedi ymgymryd ag ystod o waith arall yn ystod 2000/01. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu:

- y gwaith a wneuthum mewn ymateb i ohebiaeth ac ymholiadau eraill;
- fy rôl fel "person a bennwyd' o dan Ddeddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998; ac
- ym mha fodd yr wyf wedi ymateb i geisiadau am gymorth a chyngor technegol gan y Cynulliad a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir ganddo.

## Gohebiaeth ac ymholiadau eraill

6.2 Mae gohebiaeth a nifer yr ymholiadau eraill gan aelodau o'r cyhoedd, Aelodau'r Cynulliad a swyddogion i mi yn parhau i gynyddu. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o ddiddordeb ym musnes y Cynulliad yn gyffredinol, a hefyd yn fy ngwaith i a gwaith y Pwyllgor Archwilio, ac ymwybyddiaeth ohono ymhlith y cyhoedd.

6.3 Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2000 i 31 Mawrth 2001, cefais 34 o lythyrau a oedd yn gofyn am ymateb sylweddol (o gymharu â 15 o lythyrau ym 1999-2000). O'r rhain, roedd 21 o lythyrau oddi wrth aelodau neu swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynghorwyr Llywodraeth Leol ac Aelodau Seneddol neu Aelodau Senedd Ewrop dros etholaethau yng Nghymru. Roedd y 13 llythyr arall oddi wrth aelodau o'r cyhoedd.

6.4 Ymhlith y materion a godwyd gyda mi yn ystod 2000-01 roedd pryderon ynglŷn â:

- Rheoleidd-dra a gwedduster gwariant y Cynulliad neu'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir ganddo;
- Diffygion awgrymedig mewn gweithdrefnau caffael a oedd yn rhoi'r ymgais i sicrhau gwerth am arian ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru yn y fantol;
- Honiadau bod y Cynulliad a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir ganddo wedi gwastraffu arian;
- Camddefnydd honedig o gymorth ariannol oddi wrth Gronfa Strwythurol Ewrop; a
- Honiadau na chafwyd gwerth am arian wrth waredu asedau cyhoeddus.

6.5 Roedd rhai o'r materion a ddygwyd i'm sylw gan ohebwyr yn faterion cymhleth, gan alw am ymchwiliad manwl gan staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Weithiau roedd angen ymweld â chyrff cyhoeddus sy'n cael arian gan y Cynulliad, megis ymddiriedolaethau GIG neu sefydliadau addysg bellach ac uwch o ganlyniad. Ar sawl mater a oedd yn ymwneud â chyrff GIG, gweithiodd staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru mewn cydweithrediad â'r Archwiliwr Dosbarth perthnasol a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio. Ymhob achos, roeddwn yn gallu rhoi ymateb sylweddol manwl i'r gohebydd mewn perthynas â phob mater a godwyd ac yn gallu argymell camau unioni i'r cyrff cyhoeddus neu'r cyrff dan sylw lle y bo'n briodol.

6.6 Yn fy marn i, mae ateb gohebiaeth yn agwedd bwysig ar fy ngwaith. Mae'n bwysig bod pobl Cymru yn gwybod fy mod yn ystyried o ddifrif bob achos pryder a godwyd gyda mi sydd o fewn fy nghylch gwaith statudol, ac yn ymchwilio iddo ac yn ymateb iddo'n ddiymdroi ac mewn modd gwrthrychol. Ar y cyd â'r staff yn Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, byddaf yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i'r gwaith hwn.

## Deddf Datgelu Er Budd y Cyhoedd 1998

6.7 Codwyd rhai o'r materion a gyfeiriwyd ataf mewn gohebiaeth yn ystod 2000-01 gan unigolion (yn seinio rhybudd) a oedd am ddatgelu gwybodaeth o dan Ddeddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998.

6.8 Mae'r Ddeddf hon yn diogelu gweithwyr cyflogedig sydd am ddatgelu gwybodaeth am gamarferion yn y gweithle sy'n bygwth budd y cyhoedd. Mae'n annog datgeliadau cyfrifol, gan ddisgwyl i weithwyr cyflogedig ddatgelu gwybodaeth drwy weithdrefnau cwyno mewnol y sefydliadau y maent yn gweithio iddynt yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, lle bo unigolyn o'r farn, yn rhesymol, y byddai'n cael ei fictimeiddio, neu y byddai ymgais i gelu'r mater yn dilyn ei ddatgeliad, mae'r Ddeddf yn darparu iddo wneud datgeliad wedi'i ddiogelu yn allanol i "bersonau a bennwyd".

6.9 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf yn "berson a bennwyd" o dan y Ddeddf y gellir datgelu gwybodaeth iddo am gynnal busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian, a thwyll a llygredd mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a ariennir yn ganolog[1].

6.10 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi sefydlu gweithdrefnau er mwyn sicrhau y cymerir camau addas a rhesymol i ymchwilio i unrhyw honiadau a wnaed i mi, sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer datgelu gwybodaeth a osodwyd yn y Ddeddf. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys cydgysylltu â'r unigolyn sy'n datgelu gwybodaeth, arddel ei hawl i gyfrinachedd lle y gofynnir am hynny, a sicrhau ei fod yn cael ateb manwl am ganlyniad fy ymchwiliad.

## Secondiadau i gleientiaid archwilio

6.11 Yn sgîl y newidiadau diweddar yn nulliau cyfrifo llywodraeth ganolog, ynghyd â'r datblygiadau ym maes rheolaeth gorfforaethol a ddisgrifiais yn Rhan 7 o'r adroddiad hwn, mae sawl sefydliad sy'n gleient wedi gofyn i mi neu i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru am gyngor ar faterion sy'n ymwneud â chyfrifo, rheoliadau a rheoli'r amgylchedd.

6.12 Rwyf wedi ymateb yn gadarnhaol i'r ceisiadau hyn am gymorth, gan gynnwys trefnu i aelodau o staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gael eu secondio i'r sefydliad sy'n gleient, lle bo'n briodol. Mae hyn wedi helpu i ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a'r sefydliadau dan sylw. ac wedi rhoi cyfle i bob aelod o staff a secondiwyd gael gwell dealltwriaeth o'r amgylchedd y mae pob cleient yn gweithredu ynddo. Caiff y secondiadau hyn eu hariannu'n llawn gan y cyrff dan sylw, ac felly nid yw Archwilydd Cyffredinol Cymru yn mynd i gostau drwy eu trefnu.

6.13 Mae dau aelod o staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar secondiad i'r Cynulliad ar hyn o bryd. Mae'r naill yn gweithio gydag Isadran Atebolrwydd Ariannol y Cynulliad ar y prosiect ar gyfer cyflwyno cyfrifon 'Llywodraeth Gyfan', tra bod y llall yn gweithio o fewn Cyfarwyddiaeth y GIG ar ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru. Mae trydydd aelod o staff wedi'i secondio fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth yng Nghyngor Chwaraeon Cymru, ac mae dau aelod o staff y Cynulliad ar ymlyniad i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i wella eu gwybodaeth o weithdrefnau archwilio allanol.

1 Gellir wneud datguddiad mewn ysgrifen, neu drwy ffonio llinell i'r pwrpas (029 2089 8199).

# RHAN 7 RHEOLAETH GORFFORAETHOL

## Cyflwyniad

7.1 Yn fy Adroddiad Cyffredinol diwethaf, a grynhodd fy ngwaith archwilio ar flwyddyn gyfrifo 1999-00, nodais fod rheolaeth gorfforaethol ar fin dod yn eitem reolaidd ar agenda cyrff cyhoeddus yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'r rhan hon o'm hadroddiad yn rhoi'r diweddaraf ar ddatblygiad trefniadau ar gyfer rheolaeth gorfforaethol yn y cyrff sector cyhoeddus yr wyf yn eu harchwilio, ac ar y gwaith sy'n mynd yn ei flaen i weithredu argymhellion Pwyllgor Turnbull.

## Datblygu rheolaeth gorfforaethol

### Diffiniad

7.2 Diffinnir rheolaeth gorfforaethol fel y system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Aelodau'r Bwrdd ac uwch reolwyr sy'n gyfrifol am y rheolaeth o fewn eu sefydliadau. Ymhlith y cyfrifoldebau hyn mae pennu nodau strategol, rhoi arweiniad i'w gweithredu, goruchwylio'r ffordd y caiff y busnes ei reoli a chyflwyno adroddiadau i randdeiliaid ar eu stiwardiaeth. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, datblygwyd yr ymagwedd tuag at reolaeth gorfforaethol drwy waith Pwyllgor Cadbury[2], Pwyllgor Nolan[3], Gweithgor Rutteman a Phwyllgor Hampel[4] a Phwyllgor Turnbull[5].

## Datganiadau Rheolaeth Fewnol

7.3 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau yn y sector cyhoeddus, wedi cynnwys **Datganiad Rheolaeth Ariannol Fewnol** yn eu cyfrifon blynyddol. Byddai datganiad nodweddiadol sefydliad llywodraeth ganolog yn cydnabod cyfrifoldeb y swyddog cyfrifo dros sicrhau bod system effeithiol o reolaeth ariannol fewnol ar waith, gan roi manylion bras o'r fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol a nodi gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer adolygu effeithiolrwydd y system. Mae'r olaf yn cynnwys gwaith yr archwilwyr mewnol a phwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol neu'r Pwyllgor archwilio'r sefydliad.

7.4 Cynigiodd adroddiad Pwyllgor Turnbull yn mis Ebrill 1999 y dylid ymestyn cwmpas y Datganiad Rheolaeth Ariannol Fewnol i gynnwys pob system rheolaeth fewnol gan gyflwyno rheolaethau dros feysydd megis systemau gweithredol a systemau ar gyfer llunio polisïau fel rhan o gwmpas y datganiad. O dan ganllawiau'r Trysorlys a nodwyd yn llythyr (DAO)13/00 Annwyl Swyddog Cyfrifo mae'n ofynnol i bob corff o'r llywodraeth, gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo, ddatgelu **Datganiad Rheolaeth Fewnol** yn eu datganiadau ariannol o'r flwyddyn gyfrifo 2000-01. Lle nad oedd sefydliad yn gallu gwneud y gwaith datblygu angenrheidiol a rhoi prosesau rheoli risg ac adolygu llawn ar waith erbyn 1 Ebrill 2001, cafodd y Swyddog Cyfrifo ganiatâd i baratoi datganiad interim a oedd yn rhoi manylion o'r cynnydd a wnaed ynghyd â'r gwaith i'w wneud o hyd. Mae'r Trysorlys yn disgwyl i bob corff o'r llywodraeth fod mewn sefyllfa i baratoi Datganiad Rheolaeth Fewnol llawn erbyn 2003-02 fan bellaf.

7.5 Mae pob un o'r cyrff a archwilir gennyf wedi rhoi sicrwydd yn eu Datganiadau Rheolaeth Ariannol Fewnol 2000-01, wedi cadarnhau eu bod yn ymwybodol o argymhellion Pwyllgor Turnbull a hefyd wedi cadarnhau eu bod yn cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â gofynion DAO 13/00 y Trysorlys.

7.6 Mae system gadarn o reolaeth fewnol yn dibynnu ar werthusiad trylwyr a rheolaidd o natur a hyd a lled pob un o'r risgiau allweddol y mae sefydliad yn eu hwynebu. Diben rheolaeth fewnol yw rheoli risgiau o'r fath yn hytrach na'u dileu. Dehonglodd Pwyllgor Turnbull risgiau mewn ffordd eang, gan gynnwys nid yn unig risgiau ariannol ond hefyd meysydd megis risgiau cyfreithiol, risgiau corfforol, risgiau i iechyd a diogelwch, risgiau i enw da'r sefydliad a risgiau gweithredol.

7.7 Mae'n ofynnol bellach i uwch reolwyr cyrff yn y sector cyhoeddus nodi a dogfennu risgiau sylweddol i'w busnesau, a'u hasesu a'u rheoli. O'r prosesau hyn, *nodi risg* yw'r un fwyaf heriol, yn enwedig gan nad oedd adroddiad Pwyllgor Turnbull wedi rhoi manylion i sefydliadau am y ffordd orau o ddatblygu prosesau o nodi ac asesu risg. Mae llawer o'r cyrff a archwilir gennyf ar ganol datblygu eu cofrestrau o risgiau o hyd. Yn achos y Cynulliad, mae wedi llunio strategaeth rheoli risg ac amserlen ar gyfer ei rhoi ar waith ar draws pob isadran fel y gellir cynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol ar gyfer 2002-2003.

---

2 'Cadbury Committee: Code of Practice' (Rhagfyr 1992)
3 'Standards in Public Life', Cm 2850 (Mai 1995)
4 Adroddiad Rhagarweiniol Hampel (Awst 1997)
5 'Internal Control: Guidance for Directors on the Combined Code' (Medi 1999)

7.8 Mae'r Cynulliad hefyd yn cymryd camau i sicrhau bod y corff cyhoeddus a noddir ganddo a sefydliadau cysylltiedig eraill yn ymwybodol o ofynion y Trysorlys ac yn gweithredu arnynt. Yn benodol, mae gan y Cynulliad raglen barhaus o ymweliadau â phob corff a noddir ganddo i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd ar y gwaith o ddatblygu gweithdrefnau rheoli risg er mwyn cwrdd ag amserlen y Trysorlys. Mae'r Cynulliad hefyd wedi sefydlu Frowm Rheolwyr Risg, gydag aelodaeth yn cynnwys Rheolwyr Strategaeth Risg pob corff a noddir ganddo.

7.9 Mae'n bwysig bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn parhau i fynd ati i gynnwys ei holl uwch reolwyr yn y broses o nodi a rheoli risg. Yn benodol, ni ddylid ystyried y Datganiad Rheolaeth Fewnol yn ofyniad adrodd ariannol arall nad yw'n berthnasol iawn i aelodau o staff nad ydynt yn ymwneud â chyllid yn y sefydliad. Mae angen mynd i'r afael yn ofalus â'r gwaith o reoli risg yn effeithiol a sicrhau ei fod yn rhan annatod o weithdrefnau gweithredol y sefydliad, gan ddirprwyo cyfrifoldeb dros risgiau unigol yn glir i'r rheolwyr mwyaf addas.

7.10 Bwriadaf barhau i fonitro'r gwaith ar reolaeth gorfforaethol a wneir gan y Cynulliad a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ofalus ynghyd â datblygu polisïau a gweithdrefnau rheoli risg. Yn benodol, bydd fy ngwaith archwilio arfaethedig ar gyfrifon 2001-2002 - a fydd yn cynnwys y Datganiadau Rheolaeth Fewnol cyhoeddedig cyntaf yn fodd i mi lunio barn a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar y cynnydd a wneir yn y maes pwysig hwn.

## Pwyllgorau archwilio

7.11 Mae pob un o'r cyrff a noddir gan y Cynulliad a'r sefydliadau eraill a archwilir gennyf wedi sefydlu pwyllgorau archwilio. Yn achos y Cynulliad ei hun, mae Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol o dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd Parhaol yn goruchwylio materion archwilio a materion sy'n ymwneud â rheoli risg ar gyfer gweithgareddau craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Sefydlwyd Pwyllgorau Rheolaeth Gorfforaethol hefyd ar gyfer Cadw, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Cyfarwyddiaeth y GIG a Swyddfa'r Llywydd. Mae gan bob un o'r pwyllgorau hyn rôl bwysig wrth asesu datblygiad trefniadau ar gyfer rheolaeth gorfforaethol ac wrth roi cyngor annibynnol a gwrthrychol i Swyddogion Cyfrifo.

7.12 Mae uwch aelodau o staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgorau Archwilio neu'r Pwyllgorau Rheolaeth Gorfforaethol ymhob corff a archwilir gennyf ond nid ydynt yn aelodau ohonynt. Gan weithredu fel 'tystion arbenigol', maent yn gallu cyflwyno a thrafod materion a chanfyddiadau sy'n deillio o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol pob corff. Caiff pob pwyllgor y cyfle i ofyn am ragor o wybodaeth gan reolwyr y corff archwiliedig a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, a hefyd i fonitro'r ffordd y caiff pob argymhelliad a wnaed i wella'r amgylchedd rheoli a'r gweithdrefnau rheoli risg eu gweithredu.

7.13 Mae'r pwyllgorau hyn yn chwarae rôl fwyfwy gweithgar wrth hyrwyddo datblygiad trefniadau ar gyfer rheolaeth gorfforaethol, allbwn a chamau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan y Cynulliad rôl allweddol i'w chwarae wrth dywys ei gyrff cyhoeddus cysylltiedig drwy'r broses o ddatblygu argymhellion Turnbull. Goruchwylir y gwaith hwn gan Ysgrifennydd Parhaol y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol, sy'n monitro'r cynnydd a wneir wrth weithredu'r Strategaeth Rheoli Risg.

# RHAN 8 CYFRIFO A CHYLLIDEBU AR SAIL ADNODDAU

## Cyflwyniad

8.1 Yn y rhan hon o'm hadroddiad, gwnaf sylwadau ar:

- cynhyrchu cyfrifon adnoddau'r Cynulliad yn 2000-01 (paragraff 8.2);
- datblygu 'Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru' (paragraff 8.8); a
- cyflwyno cyllidebu ar sail adnoddau gan y Cynulliad o 2002-03 (paragraff 8.14).

## Cyfrifon adnoddau'r Cynulliad 2000-01

8.2 Ar gyfer 1999-2000, esgusododd y Trysorlys Gynulliad Cenedlaethol Cymru rhag paratoi cyfrif adnodd cyfunol oherwydd y cymhlethdodau a fyddai wedi codi yn sgîl datganoli yn ystod y flwyddyn honno.

8.3 Fodd bynnag, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2000-01 cyfarwyddodd y Trysorlys i'r Cynulliad gynhyrchu dau gyfrif adnodd ar wahân. Byddai un cyfrif yn cwmpasu gweithgareddau craidd y Cynulliad yn unig, ac yn cynnwys am y tro cyntaf 'ddatganiad o alldro yn erbyn adnoddau' a 'datganiad o adnoddau yn ôl nod ac amcanion'. Paratowyd yr ail gyfrif ar sail gyfunol, a nodwyd canlyniadau ariannol gweithgareddau craidd y Cynulliad ynghyd â'i ddau awdurdod gweithredol (Cadw a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru), y pum awdurdod iechyd yng Nghymru a'r Bwrdd Arferion Deintyddol.

8.4 Paratowyd cyfrif adnodd 'craidd' 2000-01 yn llwyddiannus gan Grŵp Ariannol y Cynulliad erbyn yr amserlen y cytunwyd arni. Llwyddwyd i wneud hyn yn bennaf oherwydd y gwersi a ddysgwyd o'r blynyddoedd blaenorol, y staff ychwanegol â chymwysterau addas a recriwtiwyd a gwaith caled y swyddogion.

8.5 Cafodd y cyfrif adnodd cyfunol ei gwblhau a'i lofnodi hefyd gan Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, yn rhinwedd ei swydd fel y Prif Swyddog Cyfrifo, erbyn y dyddiad terfynol statudol. Bu hwn yn gyflawniad clodwiw yn fy marn i, o gofio na lwyddodd sawl adran yn Whitehall i gynhyrchu eu cyfrifon adnodd i gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Trysorlys ac erbyn y dyddiad terfynol statudol.

8.6 Fodd bynnag, cafodd y Grŵp Cyllid nifer o anawsterau wrth gyflwyno'r cyfrif erbyn y dyddiad terfynol hwn, oherwydd oedi a oedd y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Grŵp. Bu oedi yn bennaf oherwydd bod cyfrifon y pum awdurdod iechyd a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi'u cwblhau'n hwyr. Bydd angen i Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, fel y Prif Swyddog Cyfrifo, gydweithio'n agos â'r swyddogion cyfrifo eraill y mae eu cyfrifon yn rhan o'r cyfrifon cyfunol er mwyn sicrhau y caiff pob cyfrif gwaelodol ar gyfer 2001-02 ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Grŵp Cyllid yn amserol.

8.7 Bwriadaf barhau i weithio'n agos gyda swyddogion y Cynulliad i helpu i sicrhau y gellir adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma yn y maes cymhleth hwn er mwyn gwella eto ar ansawdd ac amseroldeb y broses o baratoi cyfrifon adnoddau yng Nghymru.

## Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru

8.8 O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 mae'r Trysorlys wedi cyflwyno ei brosiect, 'Cyfrif y Llywodraeth Gyfan', sydd â'r nod terfynol o gynhyrchu set o gyfrifon cyfunol, yn debyg i gyfrifon masnachol, ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan yn y Deyrnas Unedig. Ceir crynodeb o brif amcanion y prosiect hwn yn **Ffigur 5**. Un elfen allweddol o'r prosiect yw 'Cyfrif Llywodraeth Gyfan Cymru' a baratoir gan y Cynulliad. Bwriedir cwblhau'r cyfrif hwn ar sail prawf cynyddol ar y cyd â nod y Trysorlys o gynhyrchu Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan cyntaf erbyn y flwyddyn ariannol 2005-06.

**Ffigur 5**

**Amcanion Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan**

- Cynorthwyo yn y gwaith o bennu a monitro polisïau ariannol, drwy roi gwell gwybodaeth am berfformiad ariannol a buddsoddiad cynaliadwy;
- Hyrwyddo cysondeb mewn adroddiadau ariannol ar draws y llywodraeth a thrwy hynny gynorthwyo yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag ariannu;
- Helpu i gynllunio cyfalaf drwy roi gwybodaeth gynhwysfawr ar asedau a ddelir ar draws y llywodraeth;
- Rhoi golwg archwiliedig gyffredinol o berfformiad a chyllid y llywodraeth.

**Ffigur 6**

**Cerrig Milltir Cyfrifon Llywodraeth Gyfan**

| Carreg Filltir y Trysorlys | Dyddiad Targed | Cynnydd a wnaed gan y Cynulliad yn erbyn y Cerrig Milltir |
|---|---|---|
| **Carreg Filltir 1**<br>Cytuno ar falensau o fewn ffin Cyfrifon y Llywodraeth Ganolog ar 31 Mawrth 2001. | **31 Hydref 2001** | **Carreg Filltir a gyflawnwyd**<br>O'r 17 corff llywodraethol sydd yn cyfuno cyfrifon, mae'r Cynulliad yn un o'r unig dri a gyflawnodd y targed hwn. |
| **Carreg Filltir 2**<br>Sicrhau bod polisïau cyfrifo, cofnodion o gyfrifon a gwybodaeth ariannol ar gyfer 2000-01 yn gyson. | **15 Mawrth 2002** | Mae pob corff yng ngrŵp cyfuno'r Cynulliad wedi cyflwyno eu ffurflenni. Mae'r Cynulliad ar y trywydd iawn i gwrdd â dyddiad terfynol y Trysorlys. |
| **Carreg Filltir 3**<br>'Ymarfer prawf' cyntaf o gyfrifon cyfunol 2001-02 y Cynulliad a'r cyrff a noddir ganddo. | **20 Rhagfyr 2002** | *Gwaith yn mynd rhagddo* |
| **Carreg Filltir 4**<br>Ail 'ymarfer prawf' cyfrifon cytuno 2002-03 y Cynulliad a'r cyrff a noddir ganddo. | **Disgwylir i fod 30 Tachwedd 2003** | dd/b |

8.9 Yng ngham cyntaf y prosiect bydd yn ofynnol cyfuno cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru, pob un o'r cyrff a noddir ganddo a'r pum awdurdod iechyd. Mae'r Trysorlys wedi rhannu'r cam hwn o'r prosiect yn bedair carreg filltir fel y nodir yn **Ffigur 6**. Llwyddodd y Cynulliad i gyrraedd Carreg Milltir 1 erbyn dyddiad terfynol y Trysorlys sef 30 Tachwedd 2001, ac ni chodwyd unrhyw wendidau sylfaenol gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ei hadroddiad a gyflwynwyd i'r Trysorlys.

8.10 Ar adeg ei hadolygiad diwethaf, calonogwyd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gan y cynnydd a wnaed gan y Cynulliad ar ei weithgareddau Carreg Milltir 2, sydd â dyddiad cau o 15 Mawrth 2002. Prif waith Carreg Filltir 2 yw casglu gwybodaeth ariannol ar gyfer y fantolen agoriadol ar 1 Ebrill 2001. Mae pob un o ffurflenni aelodau grwp cyfuno'r Cynulliad wedi dod i law. Mae'r Cynulliad ar y trywydd iawn i gyflwyno ffurflen gyfunol i'r Trysorlys erbyn y dyddiad terfynol hwn.

8.11 Mae'r ffaith bod y Cynulliad a'r cyrff a noddir ganddo wedi cyflawni Carreg Filltir 1 a Charreg Filltir 2 yn galonogol, ac mae'n rhoi sylfaen gadarn iddynt symud ymlaen i Garreg Filltir 3, 4 a thu hwnt, yn fy marn i. Mae'r canlyniadau hyn yn cymharu'n dda â llawer o adrannau'r llywodraeth yn Whitehall nad ydynt wedi llwyddo i gyrraedd dyddiad terfynol Carreg Filltir 1.

8.12 Mae'n dda gennyf nodi bod swyddogion y Cynulliad wedi cytuno i dreialu pecyn meddalwedd cyfrifiadurol y Trysorlys ar gyfer paratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Mae'n pecyn hwn yn anelu at awtomeiddio'r broses gyfuno a thrwy hynny leihau'r baich gweinyddol ar gyrff y llywodraeth. Ar ôl i'r pecyn gael ei brofi'n llawn, bwriad y Trysorlys yw ei gyflwyno i bob un o adrannau'r llywodraeth. Rwyf yn croesawu penderfyniad y Cynulliad i fod ar flaen y gad o ran y datblygiadau pwysig hyn ym maes rheoli ariannol a chyfrifo'r Llywodraeth.

8.13 Byddaf yn gweithio'n agos gyda'r Cynulliad a'r cyrff a noddir ganddo i symud ymlaen at gynhyrchu Cyfrif Llywodraeth Gyfan Cymru ac rwyf yn disgwyl i swyddogion y Cynulliad barhau yn y rôl allweddol hon yn y prosiect o dan arweiniad y Trysorlys.

## Cyllidebu ar sail adnoddau

8.14 Nod cyllidebu ar sail adnoddau yw ddod â'r broses adrodd a chyllidebu ynghyd ar sail croniadau, gan ein galluogi i dynnu cymariaethau ystyrlon rhwng alldro ariannol blynyddol ac amcangyfrifon o 'adnoddau' ar sail croniadau. Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w gyflwyno mewn egwyddor o 2002-03, ac yna newidiodd y Cynulliad ei amcangyfrifon o arian parod ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn amcangyfrifon o adnoddau. Cynhaliwyd cylch cynllunio cyllideb 2001, a bennodd gyllideb y Cynulliad o 2002-03 i 2004-05, ar sail adnoddau.

8.15 Bydd y datblygiadau hyn yn fodd i gyfrifon adnoddau 2002-03 y Cynulliad gofnodi, am y tro cyntaf, ei alldro ariannol yn erbyn ei gyllideb ar sail adnoddau. Bydd hyn yn gwneud y 'Datganiad o Alldro yn erbyn Adnoddau' yn llawer mwy gwerthfawr a defnyddiol i'r rhai sy'n defnyddio cyfrifon adnoddau'r Cynulliad.

# RHAN 9 EDRYCH YMLAEN

## Cyflwyniad

9.1 Yn y rhan hon o'm hadroddiad, edrychaf y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol 2000-01 ac ystyriaf y newidiadau i'r cyrff a archwilir gennyf yn 2001-02, ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru a'm hymrwymiad parhaus i roi gwasanaeth archwilio gwerthfawr a werthfawrogir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cyrff newydd a chyrff sy'n dirwyn i ben i'w harchwilio ar gyfer 2001-02

9.2 Bydd Cyngor Cenedlaethol Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant, Cyngor Gofal Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru yn cynhyrchu eu set cyntaf o gyfrifon yn y flwyddyn ariannol 2001-02.

9.3 Mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi arfer ei swyddogaethau ers 1 Ebrill 2001. Mae wedi ymgymryd â phrif weithgareddau'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach gynt i Gymru yn ogystal â'r cyfrifoldeb dros y pedwar Cyngor Hyfforddiant a Menter yng Nghymru. Crëwyd y Cyngor Gofal a'r Comisiynydd Plant i Gymru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 i gyflawni ystod o gyfrifoldebau statudol yn y maes pwysig hwn.

9.4 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cynorthwyo yn y gwaith o reoli pob un o'r cyrff hyn drwy roi cyngor cyfrifo ac archwilio technegol ar ystod o faterion, gan gynnwys cydymffurfio â rheoliadau ariannu Ewropeaidd, arferion cyfrifo a systemau o reolaeth fewnol a gwedduster.

9.5 Byddaf hefyd yn archwilio'r broses o gau Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd, a fydd yn cynhyrchu ei set olaf o gyfrifon ar gyfer 2001-02. Caiff swyddogaethau, asedau a rhwymedigaethau'r Bwrdd eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Ebrill 2002.

## Ailstrwythuro GIG Cymru

9.6 Ym mis Tachwedd 2001, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cynulliad ganlyniadau ei hymgynghoriad ar y cynigion i ad-drefnu'r GIG yng Nghymru. Ar yr amod y caiff y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r isddeddfwriaeth berthnasol eu pasio, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu diddymu'r pum awdurdod iechyd yn weithredol o 1 Ebrill 2003. Bwriedir sefydlu 22 o Fyrddau Iechyd Lleol statudol yn eu lle a bydd y rhain yn cydweithredu'n agos â'r awdurdodau lleol i lunio a gweithredu strategaethau sy'n hybu iechyd a lles pobl Cymru. Daw Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gorff comisiynu i Gymru gyfan ar gyfer gwasanaethau trydyddol a bydd mwy o gyfle iddo allu cynghori, arwain a hwyluso'r broses o gomisiynu gofal eilaidd.

9.7 Bydd y newidiadau sylfaenol hyn i'r ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu cyflwyno yng Nghymru yn gosod heriau mawr i Gyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad ei hun o ran rheoli'r broses drosglwyddo. Bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth oruchwylio'r gwaith trefnu a datblygu sydd ei angen i sicrhau y caiff pob un o'r strwythurau newydd eu rhoi ar waith erbyn Ebrill 2003 a bod y broses hon yn mynd rhagddi gyda phob diwydrwydd dyladwy. Edrychaf ymlaen at barhau â'm gwaith gyda'r Cynulliad a Chyfarwyddiaeth y GIG yn y maes pwysig hwn o newid strwythurol.

## Ychwanegu gwerth

9.8 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn parhau i roi cyngor i sefydliadau sy'n gleientiaid, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, ar ystod o faterion sy'n ymwneud â chyllid. Er enghraifft, mae wedi rhoi cryn arweiniad i gleientiaid ar reoli prosiectau a ariennir gan Gronfa Strwythurol Ewrop o dan Amcan 1, 2, a 3 ac ar reolau cymhleth Ewrop sy'n rheoleiddio'r ffordd y caiff yr arian hwn ei ddarparu a'i dalu.

9.9 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod y Cynulliad a'r cyrff a noddir ganddo yn cadw at safonau uchel o reoleidd-dra a gwedduster yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd ac wrth wasanaethu pobl Cymru.

9.10 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf yn bwriadu parhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol a darbodus i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar bob agwedd ar fy ngwaith, gyda'r nod sylfaenol o'i helpu i wario arian y trethdalwyr yn ddoeth.

# ATODIAD

## Cyfrifon a gwmpesir gan yr adroddiad hwn

Mae'r Adroddiad hwn yn cwmpasu pob un o gyfrifon 2000-01 a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyrff cyhoeddus eraill a archwilir gennyf. Rhoddir rhestr gyflawn isod:

### Cyfrifon a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

- Cyfrif Adnoddau Craidd y Cynulliad
- Cyfrif Adnodd Cyfunol y Cynulliad
- Cadw: Welsh Historic Monuments
- Trethi Annomestig Cymru
- Cyfrif cryno o'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter yng Nghymru
- Tri chyfrif cryno GIG (Cymru) (yr Awdurdodau Iechyd; Ymddiriedolaethau GIG; a Chronfeydd a Ddelir ar Ymddiriedaeth)
- Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- Cyfrif Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad
- Cyfrif Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol Awdurdod Datblygu Cymru

### Cyfrifon a baratowyd gan gyrff eraill yn ôl pwnc

**Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Comisiwn Coedwigaeth Cymru
- Menter Coedwigoedd Cymru

**Datblygu Economaidd**

- Bwrdd Croeso Cymru
- Awdurdod Datblygu Cymru

**Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

- Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd

**Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd**

- Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

**Addysg Cyn ac Ôl 16 a Hyfforddiant, Chwaraeon, Diwylliant a Threftadaeth**

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (a ddiddymwyd 31 Mawrth 2001)
- Cyngor Cyllid Addysg Uwch Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Cyfrif Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru

- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cyfrif Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Estyn
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

**Eraill**

- Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru
- Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

## Cyfrifon sy'n ymwneud â Chymru a archwiliwyd gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ac a gyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Roedd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r cyfrifon canlynol sy'n ymwneud â Chymru ar gyfer 2000-01:

### Cyfrifon adnoddau a dosbarthu Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru).

Paratoir y ddau gyfrif hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ran Swyddfa Cymru, ond gan mai un o adrannau Whitehall ydyw, caiff ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol;

### Cyfrifon Dosbarthu Arian Loteri y Cyngor Chwaraeon a Chyngor y Celfyddydau.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn dosbarthu arian y Loteri. Mae'r naill a'r llall yn paratoi datganiad cyfrif blynyddol ar wahân ar gyflawni eu swyddogaethau sy'n ymwneud â'r Loteri. Nid yw'r gweithgareddau hyn yn gyfrifoldebau datganoledig. Yn hytrach fe'u cyflawnir o dan awdurdod dirprwyedig o'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon;

### Cronfa Canllawiau a Gwarant Amaethyddol Ewrop.

Mae'r gronfa Ewropeaidd hon yn talu cymorthdaliadau i ffermwyr yng Nghymru, drwy gyfrwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Nid yw hon yn swyddogaeth ddatganoledig, a pharatoir cyfrif blynyddol gan bob corff ar y ffurf a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd.